



# Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro and Governor Support Unit Cylchlythyr

## Gair gan y Cadeirydd

Bydd unrhyw un ohonoch sydd wedi bod yn rhan o'r broses o benodi Pennaeth yn ddiweddar wedi darganfod pa mor anodd yw hyn bellach. Mae nifer y ceisiadau yn aml yn isel ac yn aml gorfodir Llywodraethwyr i ail hysbysebu er mwyn cael maes digon cryf i gyfweld. Nid problem yn y Fro yn unig yw hon ond mae hefyd yn wir ledled Cymru gyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb drwy greu'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweiniad Addysgol a ddechreuodd gweithredu'n swyddogol yn hydref 2018. Ei rôl yw annog a chymeradwyo hyfforddiant arweinyddiaeth o ansawdd da ar gyfer Penaeithiaid presennol a Phenaethiaid y dyfodol. Mae eisoes wedi cefnogi nifer o raglenni ac mae ganddi gynlluniau uchelgeisiol i wella arweinyddiaeth ysgolion yng Nghymru.

Un o'r mentrau fu creu grŵp o Aelodau Cyswllt yr Academi – Prifathrawon sy'n gwasanaethu'n llwyddiannus, gan gynnwys un o Fro Morgannwg, sydd wedi bod yn edrych ar ba ffyrdd arloesol o wella

arweinyddiaeth sydd yn y byd ehangach. Bu iddynt ymweld ag ysgolion yn y Ffindir a Chanada ac adrodd yn ôl yn ddiweddar fel Comisiwn i gynhadledd yn Abertawe. Mae'r adroddiad a gwybodaeth bellach am yr Academi Genedlaethol ar gael ar ei gwefan yn <http://nael.cymru/cy/hafan/>

Wrth gwrs, mae Llywodraethwyr yn arweinwyr ysgolion hefyd, yn ogystal ag yn meddu ar rôl bwysig iawn wrth benodi arweinwyr ysgol. Rwy'n falch iawn felly fy mod wedi cael fy mhenodi gan y Gweinidog i Fwrdd yr Academi Genedlaethol. Gallaf eich sicrhau na fydd rôl arweinyddiaeth llywodraethwyr ysgol yn cael ei hanghofio yn y daith newydd gyffrous hon.

Rwy'n dymuno Pasg hapus i chi ac yn gobeithio y cewch seibiant da.

**Dr Martin Price**  
Cadeirydd Cymdeithas  
Llywodraethwyr Ysgolion y Fro  
ac Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr,  
Ysgol Uwchradd Gatholig  
Sant Richard Gwyn



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef [VSGA@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:VSGA@valeofglamorgan.gov.uk)  
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

**VSGA**  
a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Dysgu a Sgiliau  
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,  
Y Barri CF63 4RU

## Rhifyn 45 Tymor Gwanwyn 2019

### Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiwyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

### Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

## Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

### Manylion cyswllt:

#### John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr  
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820  
E-bost: [JSparks@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JSparks@valeofglamorgan.gov.uk)

#### Janine Hoare

Cynorthwydd Clerigol  
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820  
E-bost: [JHoare@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JHoare@valeofglamorgan.gov.uk)



# Run a



# to teach road safety and save lives



Wednesday  
**20**  
MARCH  
2019

Wednesday  
**17**  
JULY  
2019

Wednesday  
**20**  
NOVEMBER  
2019

Every year thousands of tots and infants aged 2-7 take part in a special Beep Beep! Day.

- A great way to engage children with road safety basics.
- Raises awareness among parents and the wider community.
- It's a fun and easy way to raise valuable funds for Brake.

### When can I take part?

- Beep Beep! Days run every year and you can run your event on any day, but our national dates are shown above.



### Get your resources!

- Everyone who registers will receive a free e-resource pack or for a small fee you can get a bumper resource pack! The Bumper Pack contains stickers and certificates for all children taking part, posters, lots of road safety activities and even balloons, all for just £12.60 (per 50 children).

“We regularly take part in Beep Beep! Day and enjoy using the bumper pack; the children love receiving their stickers and certificates, and the information cards are very valuable for staff to use too.”

Johanne Watson, Depute Head Teacher, Lasswade Primary School

Register now  
at [Brake.org.uk/beepbeepday](http://Brake.org.uk/beepbeepday)  
email [Beepbeep@brake.org.uk](mailto:Beepbeep@brake.org.uk)  
or call the team on **01484 550061**



Organised by

 **Brake**  
the road safety charity

Registered charity No. 1093244

Sponsored by



**churchill™**



# BEEP BEEP! DAY

## Beth am gynnal Beep Beep! Day er mwyn dysgu plant blynyddoedd cynnar am ddiogelwch y ffordd

Mae Beep Beep! Days, a noddir gan Churchill, yn gyfle gwyh i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar gyflwyno rheolau sylfaenol diogelwch y ffordd i blant, drwy weithgareddau hwyliog a'r adnoddau a ddarperir gan Brake, yr elusen diogelwch ffordd. Yn flynyddol mae miloedd o blant bach a phlant rhwng 2-7 oed yn cymryd rhan er mwyn helpu achub bywydau.

Bob dydd, mae tua 500 o blant a phobl ifanc yn cael eu lladd ar y ffyrdd ar draws y byd. Mae Brake yn gweithio er mwyn atal y marwolaethau a'r anafiadau drwy ymgyrchu am ffyrdd mwy diogel ac yn cefnogi galarwyr neu bobl sydd wedi eu hanafu mewn damweiniau.

Er mwyn helpu plant y blynyddoedd cynnar yn y DU i gymryd rhan yn y fenter, mae Brake yn cynhyrchu amrywiaeth o adnoddau arbennig er mwyn cynorthwyo'r rhai bach i ddeall rheolau sylfaenol diogelwch y ffordd a hynny o'r pwysigrwydd o ddal llaw oedolyn i adnabod pan mae hi'n ddiogel i groesi.

Mae pawb sy'n cofrestru i gymryd rhan yn derbyn e-becyn adnoddau rhad ac am ddim neu'n gallu prynu pecyn mawr am £12.50 (ar gyfer 50 plentyn)! Mae'r pecyn yn cynnwys taflenni lliwio, posteri, cardiau gweithgareddau wedi eu lamneiddio, map y ffordd a phoster gweithgaredd A2, tystysgrifau, sticeri, balwnau a'n hadnoddau thematig.

Am fwy o wybodaeth ewch i [brake.org.uk/beepbeepday](http://brake.org.uk/beepbeepday) neu ebostiwch [beepbeep@brake.org.uk](mailto:beepbeep@brake.org.uk).


## VOGBLOG

Syniad y Cyngorydd Bob Penrose, Aelod Cabinet y Fro ar gyfer Dysgu a Diwylliant, oedd cael blog ar gyfer llais disgyblion ym Mro Morgannwg. Nod y blog yw rhoi llwyfan i ddisgyblion rannu straeon newyddion, digwyddiadau, canmoliaethau, cyraeddiadau chwaraeon a mwy gyda'u hysgolion a'r gymuned ehangach. Bydd y blog a rennir hefyd yn caniatáu cydweithredu rhwng pob ysgol uwchradd yn y Fro. Gall hefyd danio diddordeb disgyblion yn y cyfryngau neu yrfa mewn newyddiaduraeth gyda chyfle i wella eu sgiliau o oedran ifanc ac adeiladu portffolio o'u gwaith.

Y disgyblion benderfynodd ar sut cafodd y blog hwn ei ddylunio, enw'r blog a chynnwys y blog, mewn gweithdy a fynychwyd gan ddisgyblion o bum ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg ar 11 Gorffennaf 2081.

Lansiwyd y blog ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd a hyd yma mae cyfanswm o 59 o bostiau wedi'u hysgrifennu gan ddisgyblion o bob rhan o'r sir.

Gallwch weld VOGBLOG yn [www.vogblog.wales](http://www.vogblog.wales). Y gobaith yw y gallwn annog mwy o bobl i ddarllen drwy rannu'r llwyfan hwn, ac annog llywodraethwyr ysgolion uwchradd i'w rannu yn eu hysgolion.





Cynnig  
**GOFAL PLANT** CYMRU  
The **CHILDCARE** Offer for  
WALES

Addysg gynnar a gofal • Early education and care



## Your Childcare Offer in the Vale of Glamorgan

- Do you work 16 hours or more per week?
- Is your child aged 3 or 4 years old?
- Do you live in the Vale of Glamorgan?

If so, the Welsh Government might be able to fund up to  
30 hours per week of combined Childcare and  
Early Years Foundation Phase Education

Contact the Family Information Service - 01446 704704 - [www.valeofglamorgan.gov.uk/fis](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/fis)



# INSET days 5 Mawrth ar y Diwrnodau HMS Cenedlaethol Ychwanegol ar gyfer Dysgu Proffesiynol 2019

Mae ymgynghoriad wedi dechrau 5 Mawrth ar y Diwrnodau HMS Cenedlaethol Ychwanegol ar gyfer Dysgu Proffesiynol 2019 – 2022. Bydd yr ymgynghoriad yn agored hyd at 1 Mai 2019 a gellir ei weld yma:

<https://beta.llyw.cymru/diwrnodau-hms-ychwanegol-dysgu-proffesiynol-cenedlaethol-2019-2022>



**CADWCH Y DYDDIAD**

Cynhadledd Haf Llywodraethwyr 2019

# LLES MEWN ADDYSG

*Prif siaradwr eleni:*  
*Sophie Howe,*  
*Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru*

**Dydd Mawrth, 4<sup>ydd</sup> Mehefin 2019**

**Further details to be announced**

 Consortïwm Canolbarth y De  
Central South Consortium  
Cenedlaethol Addysg a Cyt  
Joint Education Service

[www.cscjes.org.uk/governors](http://www.cscjes.org.uk/governors)

## Ysgolion yr 21ain Ganrif Buddsoddi yn nyfodol addysg ym Mro Morgannwg

### Beth yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif?

Mae'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn fuddsoddiad strategol hirdymor yn yr ystâd addysgol ledled Cymru. Mae'n gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), awdurdodau lleol, colegau ac awdurdodau esgobaethol. Ceir manylion pellach Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif trwy wefannau Ysgolion yr 21ain Ganrif a Llywodraeth Cymru.

Yr ydych yn gallu gweld yr erthygl hon ar wefan Bro Morgannwg drwy glicio [yma](#).

# EIN CLUBS IEUENCTID AC AMSERAU AGORED



## DYDD LLUN

### LLANILLTUD

CANOLFAN  
FAWR HAMDDEN

5:00-7:00 PM IAU BLWYDDYN 6-8  
7:15-8:45 PM HŶN BLWYDDYN 9+

Canolfan Ieuenctid Llanilltud  
Fawr, Station Road, Llanilltud  
Fawr, CF61 1ST

### YSTAFFELL 102

### Y RHWS

4:15-6:15 PM IAU BLWYDDYN 6-8  
6:45-8:45 PM HŶN BLWYDDYN 9+

Canolfan Gymunedol Y Rhws,  
Stewart Road, Y Rhws, CF62 3EZ

## DYDD MAWRTH

### #YOUTH@THEhub

4:15-6:15 PM IAU BLWYDDYN 6-8  
6:45-8:45 PM HŶN BLWYDDYN 9+

YMCA Y Barri, Court Road,  
Y Barri, CF63 4EE

## DYDD MERCHER

### V-POD

### @ ST ATHAN

6:00-8:00 PM BLWYDDYN 6+

Canolfan Gymunedol Sain Tathan,  
Glyndwr Avenue, Sain Tathan,  
CF62 4PP

### CLWB IEUENCTID

### Y BARRI

5:00-6:30 PM BLWYDDYN 6+

Canolfan Dysgu Oedolion yn y  
Gymuned Palmerston,  
Cadoc Crescent, Y Barri CF63 2NT

### GWOBR DUG

### CAEREDIN

6:00-8:00 PM OED 14+

Canolfan Ieuenctid Llanilltud  
Fawr, Station Road, Llanilltud  
Fawr, CF61 1ST

## DYDD IAU

### V-POD @ NORTH

### WALK, BARRY

6:00-8:00 PM BLWYDDYN 6+

Canolfan Gymunedol Buttrills,  
North Walk, Y Barri, CF62 8BXX

### CLWB IEUENCTID

### Y ELFED AVE

3:45-5:30 PM BLWYDDYN 6+

Elfed Avenue United Church,  
Elfed Avenue, Penarth, CF64 3LX

### LLANDOUGH

### OUT LOUD

6:15-8:15 PM BLWYDDYN 5-8

Ysgol Gynradd Llandochoau,  
Dochdwy Road, Llandochoau,  
Penarth, CF64 2QD

## DYDD GWENER

### CEFNOGI CLUB IEUENCTID

### Y TREGOLWYN

6:30-9:30 PM

Canolfan Gymunedol Tregolwyn,  
Tregolwyn, Y Bont-faen, CF71 7NL





# Digwyddiad Clwb Addysgol Barry Town United FC

## Fe wnaethom ymweld â Pharc Jenner ar gyfer digwyddiad clwb addysgol gyda'n clwb partner Barry Town United FC.

Mynychodd pobl ifanc o Ysgol Gynradd Oakfield y stadiwm i gymryd rhan yn ein digwyddiad clwb addysgol am y diwrnod.

Cyflwynodd y gweithiwr addysg, Steve Jenkins, weithdy yn y bore i'r bobl ifanc yn eu haddysgu ar y pwnc o hiliaeth gan ddefnyddio gweithgareddau rhyngweithiol a thrafodaethau.

Gosodwyd tasg i'r disgyblion cyn iddynt gyrraedd yr ysgol i baratoi ar gyfer "cynhadledd i'r wasg" yn y prynhawn ar wrth-hiliaeth.

Roedd yn rhaid i'r disgyblion greu enw papur newydd a chawsant y dasg o ymchwilio i hiliaeth mewn chwaraeon a chymdeithas. Roedd gofyn i ddisgyblion hefyd ddarllen papurau newydd a blogiau ar-lein i weld sut y cânt eu cynllunio a'u hysgrifennu.

O'r wybodaeth a ddysgwyd ganddynt, roedd yn rhaid iddynt baratoi cwestiynau ar gyfer y gynhadledd i'r wasg yn y digwyddiad er mwyn helpu i gynhyrchu eu herthygl ar gyfer eu papur newydd ar ôl y digwyddiad.

Yn y prynhawn gwylodd y disgyblion ein ffilm addysgol, a roddodd gyfle olaf iddynt i gael gwybodaeth bellach am y pwnc cyn y sesiwn holi ac ateb yn ein digwyddiad "cyfryngau/cynhadledd i'r wasg".

Roedd y chwaraewyr Jordan Cotterill, Louis Gerrard a'r rheolwr cynorthwyol Mike Cosslett yn bresennol yn y digwyddiad i gymryd rhan yn y gynhadledd i'r wasg.

Cafodd disgyblion a oedd yn y rôl newyddiadurwyr papur newydd eu dewis i ofyn cwestiynau, cyflwyno eu hunain a'r papurau newydd yr oeddent yn "gweithio" iddynt gyda'u cwestiwn i ddilyn.

Gofynnodd y newyddiadurwyr am rai cwestiynau heriol iawn i'r chwaraewyr ac roeddent yn amlwg wedi ymchwilio a chynllunio rhai cwestiynau a oedd wedi cael ystyriaeth dda.

Enillodd yr enillydd gwobr Holly, grys Barry Town wedi'i arwyddo, ynghyd â bag o anrhegion SRtRC am ofyn y cwestiwn gorau.



Pan fydd y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol byddan nhw'n defnyddio'r holl wybodaeth roedden nhw wedi'i dysgu yn y digwyddiad ynghyd â'r ymatebion gan y chwaraewyr i ysgrifennu a dylunio eu herthygl.

Hoffem i'r ysgol fynychu'r digwyddiad a'r clwb ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i gynnal y digwyddiad ac ar gyfer darparu'r gwobrau i'r disgyblion.

Mae ein digwyddiadau Clwb addysgol yn cael eu hariannu gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru.




Consortiwm Canolbarth y De  
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd  
Joint Education Service

# Sesiynau Gwybodaeth i Llywodraethwyr Tymor yr Haf 2019

## Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth

**Mae'r safonau proffesiynol newydd, sydd wedi bod yn berthnasol i bob ymarferydd ers dechrau blwyddyn academiaidd 2018, yn cefnogi ymarferwyr i ymdrechu am arfer ragorol gyson o hyfforddiant cychwynnol i arweinyddiaeth ysgol.**



Mae'r safonau proffesiynol yn disgrifio'r gwerthoedd, sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau sy'n nodweddu arfer ragorol ac sy'n cefnogi twf proffesiynol. Mae'r pum safon ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar bum elfen hanfodol o waith pob athro.

Mae'n hanfodol bod Llywodraethwyr, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â Rheoli Perfformiad Penaethiaid, yn gyfarwydd â'r Safonau a'r athroniaeth sy'n eu tanategu.

Er mwyn cadw lle mewn sesiwn, cysylltwch â'ch

**Tîm Cefnogi Llywodraethwyr** neu e-bostio [cscgovernor@cscjes.org.uk](mailto:cscgovernor@cscjes.org.uk)

**21 Mai 2019 - Neuadd y Ddinas, Caerdydd - 6-8pm**

**11 June 2019 - Ysgol Gyfun Pencoed - 6-8pm**

**17 June 2019 - Ysgol Uwchradd Pontypridd - 6-8pm**





Mae Gwasanaeth Llesiant Ieuencid Teuluoedd yn Gyntaf yn brosiect sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar ddull amlasiantaethol o gefnogi pobl ifanc. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth targedig i bobl ifanc sydd wedi wynebu profiadau plentyndod negyddol sy'n cael effaith negyddol ar eu lles cymdeithasol ac emosiynol. Y prif ffocws yw cefnogi pobl ifanc 10-16 oed ym Mro Morgannwg. Nodau craidd y cymorth yw magu hyder, datblygu cadernid, gwella lles emosiynol a chymdeithasol a diogelu rhag profiadau plentyndod negyddol pellach. Mae'r gwasanaeth yn gweithio ar y cyd â gwasanaethau eraill a phartneriaid allweddol i sicrhau bod pobl ifanc yn cyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r prosiect yn derbyn atgyfeiriadau drwy'r Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf – 0800 0327322.

Nodau'r gwasanaeth yw:

- Gwella lles cymdeithasol ac emosiynol.
- Magu hyder a chadernid.
- Grymuso pobl ifanc i ddod yn gyfranogwyr actif a chynhyrchion mewn cymdeithas.
- Gwella cyfleoedd bywyd pobl ifanc.
- Adeiladu capasiti pobl ifanc i ystyried risg, gwneud penderfyniadau rhesymol a chymryd rheolaeth.
- Datblygu agweddau, ymddygiad ac uchelgais cadarnhaol.
- Datblygu gallu pobl ifanc i reoli perthnasau personol a chymdeithasol.
- Atal anghenion rhag gwaethygug.
- Diogelu pobl ifanc rhag y niwed sy'n cael ei achosi gan PPNau neu brofiadau eraill tebyg.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn cysylltwch â Kate Welsh, Uwch Fentor Ieuencid, ar **01446 709401** neu e-bostiwrch [youthwellbeing@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:youthwellbeing@valeofglamorgan.gov.uk)



## Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2018-20

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwyr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwyr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

| Rhif       | Teitl   | Blaenly thyren | Cyfenw         | Ysgol                                                |
|------------|---------|----------------|----------------|------------------------------------------------------|
| 1          | Mr      | R              | Bailey         | Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llanbedr y Fro      |
| 2          | Mr      | N              | Craggs         | Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfô              |
| 3          | Mrs     | M              | Gibbs          | Ysgol Gynradd Romilly                                |
| 4          | Mr      | A              | Hennessey      | Ysgol Gynradd Oak Field ac Ysgol Sant Baruc          |
| 5          | Mrs     | S              | Hodges         | Ysgol Sant Baruc                                     |
| 6          | Mr      | C              | Laity          | Ysgol Gynradd Tregatwg                               |
| 7          | Mrs     | A              | Males          | Ysgol Gyfun Sant Cyres                               |
| 8          | Mrs     | A              | Malkin         | Ysgol Gynradd Gladstone                              |
| 9          | Dr      | M              | Price          | Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant            |
| 10         | Mr      | R              | Smith          | Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru |
| 11         | Mr      | D              | Treharne       | Ysgol Gynradd Llansannwyr yr Eglwys yng Nghymru      |
| 12         | Mrs     | T              | Vaughan-Taylor | Ysgol Gyfun y Bont-Faen                              |
| 13         | Mrs     | L              | Warren         | Ysgol Gynradd St Illtyd                              |
| 14         | Mrs     | S              | Williams       | Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru    |
| 15         | Cllr Mr | M              | Wilson         | Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria    |
| PGR - Prim | Mrs     | J              | Lynch-Wilson   | Ysgol Gynradd St. Athan                              |
| PGR - Sec  | Dr      | C              | Brown          | Llantwit Major Comprehensive                         |

### Termau swyddfa Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr (PGRs)

| Sector   | Enw | Ysgol(s)                            |
|----------|-----|-------------------------------------|
| Gynradd  | Mrs | Julie Lynch-Wilson Gynradd St Athan |
| Uwchradd | Dr  | Carol Brown Llantwit Major Comp     |